# COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 13 MAI 2024

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths

Mark Thomas

Linda Ann Jones

David Meirion Jones

Dewi Prysor

Peter Jones

Troy Maclean

Gareth Davies

Morwenna Pugh

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Geoffrey Jones

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Yn ogystal roedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol ar Zoom.

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Y Cynghorydd Eifiona Davies.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganwyd buddiannau gan:

Y Cynghorydd Linda Ann Jones – eitem 8 – Cwmni Bro

Y Cynghorydd Dewi Prysor – eitem 8 – Cwmni Bro

**3. Materion y dylid eu hystyried fel mater o frys yn y cyfarfod ym marn y Cadeirydd**

Nid eodd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Ystyriwyd Ebost a dderbyniwyd gab y Rhingyll Simon Barlow, a phwysleisiwyd bod y Cynghorwyr eisiau iddyn nhw ddod i gyfarfodydd y Cyngor Tref, ac ebostio i ail-adrodd hyn. O ran y cyfarfod i gynghorau sydd i'w drefnu gan yr Heddlu, cytunwyd bod Y Cynghorydd Morwenna Pugh a'r Cynghorydd Linda Ann Jones yn mynychu.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Siaradodd un o aelodau'r cyhoedd gan ddweud ei bod yno i weld y drafodaeth ar Erthygl 4, a chyflwynodd ei gwrthwynebiad i'r mesur arfaethedig. Cytunodd y Cynghorwyr symud eitem 17 i fyny'r rhaglen, er mwyn trafod y mater yn gynharach yn y cyfarfod. Esboniodd Y Cynghorydd Rory Francis bod Awdurdod y Parc yn ymgynghori ar hyn o bryd, gan roi

DRAFT

esboniad cryno o’r hyn a fwriedir. Cytunwyd bod y Cyngor Tref yn cynnal cyfarfod Anarferol i drafod y mater ar ôl rhoi cyfle i’r cynghorwyr ddarllen y dogfennau yn drwyadl cyn dod i benderfyniad. Y cyfarfod hwn i’w gynnal ar 20fed Mai 2024.

**6. Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 27 Mawrth 2024.
Cynigiodd y Cynghorydd David Jones ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 8 Ebrill 2024
Cynigiodd y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd y Cynghorydd Troy Maclean bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 17 Ebrill 2024
Cynigioddd y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

**7. Ceisiadau Cynllunio**

**i. Wynnes Arms**

Roedd y Cyngor Tref wedi derbyn deiseb a llythyrau yng wrthwynebu. Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu’r cynnig a chytunodd pawb.

**ii. Clwb Rygbi**

Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd Troy Maclean nad yw’r Cyngor Tref yn gwrthwynebu a chytunodd pawb.

**iii. Gorsaf**

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas ei fod yn bryderus iawn ynglŷn â’r cais oherwydd allyriannau EMF, a’i fod wedi mynegi pryderon o’r fath yn y gorffennol gyda chais tebyg. Dywedodd hefyd iddo gyflwyno gwybodaeth i’r Cyngor Tref yn y gorffennol yn amlinellu peryglon hyn i iechyd, ond iddo ef a’r dystiolaeth gael eu hanwybyddu.

Roedd y Cynghorydd Rory Francis hefyd yn mynegi pryder oherwydd lleoliad gweladwy iawn y mast arfaethedig. Awgrymwyd bod y Cyngor Tref yn gwahodd arbenigwyr i gyfarfod y Cyngor i esbonio – un ar y naill ochr a’r llall i’r ddadl ynglŷn â pheryglon EMF. Cynigiodd y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bod hynny yn cael ei wneud a chytunodd pawb.

**8. Cwmni Bro**

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y swyddog o Gwmni Bro yn cael ei gwahodd i annerch y Cyngor Tref a chytunodd pawb.

**9. Llythyr gan Gyngor Tref Nefyn**

Trafodwyd y llythyr a chynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn cefnogi llythyr Cyngor Nefyn. Gwnaed cais am bleidlais gofnodedig a dyma oedd y canlyniad:

| **O blaid** | | **Yn erbyn** | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorwyr | Mark Thomas | Y Cynghorwyr | Rory Francis |
| | Geoffrey Jones | | David Jones |
| | Peter Jones | | Linda Jones |
| | Troy Maclean | | |
| | Gareth Davies | | |
| | Morwenna Pugh | | |
| | Dafydd Dafis | | |
| | Marc Lloyd Griffiths | | |

Ymataliodd y Cynghorydd Dewi Prysor rhag pleidleisio, ac felly cytunwyd gyda'r cynnig drwy fwyafrif.

**10. Wal ger hen le Arthur Becws**

Adroddwyd bod gwaith clirio wedi ei wneud bellach, ac nad oedd deundydiau yn pwyso yn erbyn y wal. Derbyniwyd yr adroddiad.

**11. Datblygiadau yn yr ardal**

Rhoddodd Dafydd Dafis ddiweddariad ar y sefyllfa gyda'r ambiwlans awyr, gan ddweud fod angen parhau i ymladd. Pwysleisiodd bwysigrwydd llofnodi'r ddeiseb a oedd ar gael arlein.

**12. Taliadau a Derbyniadau**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**13. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

**Cymdeithas Gwelliannau Ffestiniog**

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn rhoi cyfraniad o £1,000 a chytunodd pawb.

**14. Clwb Gymnasteg**

Cafwydd adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Dafis ar sefyllfa'r Clwb Gymnasteg a chytunwyd bod angen mwy o wybodaeth ac ail-drafod y mater wedi hynny.

**15. Parc Sglefrio**

Adroddwyd yn ôl ar gyfarfod a gafwyd ar y safle, a bod y Clercod yn aros i gael gwybodaeth bellach.

**16. Prynu Compost i'r Parc**

DRAFT

Cynigiodd y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd y Cynghorydd Troy Maclean a chytunwyd prynu compost i'r Parc ar gyfer plannu'r planhigoin newydd a oedd ar fin cyrraedd a chytunodd pawb.

**17.** **Erthygl 4 –** roedd yr eitem wedi ei thrafod yn gynharach yn y cyfarfod.

**18.** **Materion er gwybodaeth**

Rhoddodd y Cynghorydd Dafydd Dafis adroddiad ar gyfarfod Llechi a'r angen am amgueddfa Lechi yn y Blaenau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm

DRAFFT